# GEM UK: Adroddiad Cymru 2020

Karen Bonner, Mark Hart, Neha Prashar ac Anastasia Ri

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) yn brosiect rhyngwladol sy'n cynnwys 43 economi yn 2020 a'i nod yw ceisio darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwahanol wledydd. Mae sawl astudiaeth wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maint y sampl yng Nghymru yn 2020 oedd 1,540 o oedolion dros 18 oed ar ôl i Lywodraeth Cymru ychwanegu at sampl genedlaethol y DU.

## Prif Ganfyddiadau

- **Cyfradd cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru yn 2020 oedd 6.5 y cant. Nid oedd y ffigur hwn yn sylweddol wahanol i gyfradd 2019 yng Nghymru na'r amcangyfrifon ar gyfer 2020, sef 7.7 y cant ar gyfer Lloegr a 7.5 y cant ar gyfer y DU gyfan.**

- **Yn 2020, entrepreneuriaid cam cynnar yng Nghymru a oedd â'r cymhelliant mwyaf i ddechrau busnes er mwyn ennill bywoliaeth am fod swyddi yn brin (bron dau o bob tri) Nhw oedd lleiaf tebygol o sefydlu busnes i barhau â thraddodiad teuluol.**

- **Nid oedd cyfradd TEA menywod yng Nghymru, sef 5.6 y cant, yn sylweddol wahanol i gyfradd TEA dynion, sef 7.5 y cant. Mae cyfradd TEA menywod yng Nghymru wedi gostwng unwaith eto ar ôl cyrraedd ei lefel uchaf erioed yn 2019, sef 7.0, ond mae'n dal i fod yn uwch na chyfradd 2002, sef 3.0 y cant. Ac nid oedd cyfraddau TEA dynion na merched yng Nghymru yn 2020 yn sylweddol wahanol i'r rhai yn y DU.**

- **Mae lefel entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru gryn dipyn yn uwch yn 2020 nag ydoedd 19 blynedd yn ôl: sef 10.1 y cant o gymharu â 2.0 y cant. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn gweithgarwch entrepreneuraidd rhwng y grwpiau oedran yn 2020 yng Nghymru.**

- **Mae tua dau o bob pum unigolyn nad yw'n entrepreneur (41.1%) yn nodi bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i ddechrau busnes ac mae ychydig o dan hanner (45.1%) yn adnabod entrepreneur sydd wedi dechrau busnes yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i rai 2019 a, gyda'i gilydd, maent yn dangos cadernid yn y boblogaeth o ran y gallu i ddechrau busnes llwyddiannus a'r amodau i wneud hynny.**

- **Mae cyfran y bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn lleol yn y chwe mis nesaf yn llai na'r ffigur ar gyfer y DU. Fodd bynnag, mae cyfraddau ofn methu yn debyg. Yn 2020, dywedodd ychydig dros hanner (54.9%) yr unigolion hynny yng Nghymru a nododd gyfleoedd i ddechrau busnes y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes.**

- **Mae'r pandemig wedi cael yr effaith fwyaf dramatig ar fwriadau i ddechrau busnes ac mae'r gyfradd yng Nghymru wedi mwy na dyblu yn 2020. Mae 16.7 y cant o oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru yn disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf, sy'n debyg i gyfradd y DU, sef 16.2 y cant.**

# Cefndir

Mae Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM) yn brosiect rhyngwladol sy'n ceisio darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd seiliedig ar yr egwyddorion canlynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n fawr ar sector entrepreneuriaeth dynamig. Yn ail, mae capasiti entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp mewn cymdeithas sydd â'r gallu a'r ysgogiad i ddechrau busnesau, ac mae'n galw am ganfyddiadau cymdeithasol positif ynghylch entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf uchel yn gyfrannwr allweddol i gyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Mae Llywodraeth Cymru'n noddi elfen Gymreig y prosiect ymchwil GEM UK. Mae symbylu entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r rhanbarth ac mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori o fewn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r ail flwyddyn ar bymtheg i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn GEM. O'r 351,000 o ymatebwyr i arolygon GEM UK ar gyfer y cyfnod 2002-2020, mae bron i 65,000 o ymatebwyr yn dod o Gymru. Erbyn hyn mae gan Gymru un o'r cronfeydd data mwyaf ar agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd o blith pedair gwlad y DU ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiad tuedd ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl ifanc neu bobl hŷn.

Defnyddir y canlyniadau o ddadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol o gwmpas y byd. Hefyd maent yn galluogi i gymariaethau gael eu gwneud â rhanbarthau eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymgais ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig ein bod yn deall penderfynyddion entrepreneuriaeth cam cynnar yn well, oherwydd mae tystiolaeth i awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o entrepreneuriaeth a ffyniant economaidd cyffredinol, yn enwedig mewn economïau a ysgogir gan arloesedd megis Cymru.

# Sut mae GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Mae GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar (a elwir yn TEA) trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o hapsampl o'r boblogaeth o oedolion rhwng mis Mai a mis Medi.
- Y mynegai TEA yw cyfanswm yr ymatebwyr hynny a ddosberthir fel entrepreneuriaid cychwynnol[1] ac entrepreneuriaid cwmni newydd[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw'n seiliedig ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau y maent yn eu sefydlu. Oherwydd hynny mae'n fesur unigryw y gellir ei gymharu ar lefel ryngwladol o duedd ddiwylliannol cenedl, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Un ffordd o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw i ba raddau y mae'r gweithgarwch yn seiliedig ar reidrwydd (h.y. nad oes unrhyw ddewisiadau amgen gwell ar gyfer gwaith) neu gyfle (lle y gallai entrepreneuriaid fod yn manteisio ar y potensial ar gyfer creu marchnadoedd newydd)

Ers 2011 mae gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith cyflogeion wedi'i fesur hefyd. Erbyn hyn gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar sut y mynegir gweithgarwch entrepreneuraidd o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle mae gan entrepreneuriaid lawer llai o fynediad at nawdd cymdeithasol na chyflogeion, er enghraifft, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn tueddu i gynnwys cyfran uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cyffredinol[3]. Mae ystyried TEA ac EEA gyda'i gilydd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o weithgarwch entrepreneuraidd mewn gwlad.

---

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol lle mae'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i ddechrau busnes newydd, busnes y bydd ef/hi yn berchen ar o leiaf ran ohono, ac nad yw wedi talu cyflogau nac incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinnir yr ail gyfnod fel un o 4 i 42 mis wedi i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm i'r perchnogion. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn berchen ar ran o fusnes newydd neu'n rheoli busnes newydd sydd wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 a dim mwy na 42 mis fel entrepreneuriaid cwmni newydd.

[3] Fforwm Economaidd y Byd (WEF) a GEM Global (2016) "Europe's Hidden Entrepreneurs: Entrepreneurial Employee Activity and Competitiveness in Europe". http://www3.weforum.org/docs/WEF_Entrepreneurship_in_Europe.pdf

Yn ogystal â gweithgarwch, mae'r arolwg GEM yn holi'r holl ymatebwyr am eu hagweddau at weithgarwch entrepreneuraidd, ac yn holi entrepreneuriaid am eu dyheadau.


Esbonnir y fethodoleg, y meintiau samplau a'r systemau pwysoli a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg poblogaeth oedolion GEM UK 2020 yn fanylach yn adroddiad GEM UK 2020 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10 y cant o ymatebwyr ym mhob Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth (GOR) ar hap o aelwydydd â ffonau symudol ond nid llinellau tir.  Yn 2015, cynyddwyd y ffigur hwn i 20 y cant, yn unol ag amcangyfrifon diweddar o gyfran yr aelwydydd â ffôn symudol yn unig yn y DU ac mae hynny wedi'i gynnal yn arolwg 2020.

Mae'r adroddiad dilynol yn rhoi crynodeb o'r prif ganlyniadau a'r themâu allweddol sy'n codi o arolwg GEM yn 2020 a'r dadansoddiad o bedair blynedd ar bymtheg o ddata GEM (2002-20).

# Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar (Mynegai TEA)

Cyfradd entrepreneuriaeth cam cynnar yng Nghymru yn 2020 yw 6.5 y cant, nad yw'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif yn 2019, sef 7.0 y cant. Nid yw'r gyfradd yn 2020 yn sylweddol wahanol i'r gyfradd yn Lloegr (7.7%) a'r amcangyfrif ar gyfer y DU, sef 7.5 y cant (Ffigur 1).

Yn gyffredinol, mae cyfradd TEA o 6.5 y cant yng Nghymru yn cyfateb i tua un o bob 15 o oedolion 18-64 oed neu tua 122,000 o unigolion, yr oedd 67 y cant ohonynt ar y camau cynnar iawn o ddechrau busnes (entrepreneuriaid cychwynnol 4.4%) a'r gweddill oedd y rhai a oedd â busnes newydd rhwng 4 a 42 mis oed. Y ffigur cymaradwy ar gyfer perchnogion busnes cychwynnol yn y DU oedd 4.2 y cant.





**Ffigur 1: Cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar (TEA) ym Mhedair Gwlad y DU 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)

Fel y dengys Ffigur 2a, arhosodd cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru a'r DU yn gymharol sefydlog rhwng 2004 a 2010, ar tua 6 y cant. Ers hynny mae cyfraddau Cymru a'r DU wedi amrywio cryn dipyn ac wedi ymwahanu oddi wrth ei gilydd. Cyrhaeddodd gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru ei lefel uchaf yn 2011, sef 8.1 y cant, cyn gostwng unwaith eto i'r gyfradd gyfartalog hirdymor yn 2013. Mae'r bwlch


rhwng y cyfraddau yng Nghymru a Lloegr, a agorodd yn 2017, wedi cau unwaith eto yn ystod 2020.

Yn 2020, cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cychwynnol yng Nghymru oedd 4.4 y cant, sy'n debyg i gyfradd 2019. Nid oedd cyfradd perchenogaeth busnes newydd, sef 2.4 y cant, yn sylweddol wahanol ychwaith i'r gyfradd yn 2019, sef 3.0 y cant. Gostyngodd cyfradd entrepreneuriaeth gychwynnol yn y DU rhwng 2019 a 2020; o 6.5 y cant i 4.2 y cant. Roedd cyfradd perchenogaeth busnes newydd ar gyfer y DU fwy neu lai'n ddigyfnewid ar 3.5 y cant yn 2020 O ganlyniad, roedd cau'r bwlch rhwng cyfraddau TEA yng Nghymru a'r DU i'w briodoli i entrepreneuriaeth gychwynnol yn y DU yn 2020.




**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-20:** (Ffynhonnell: GEM APS)

Hyd at 2011, roedd cyfraddau TEA Dwyrain a Gorllewin Cymru wedi dilyn tueddiadau tebyg (Ffigur 2b). Er i fwlch agor wedyn rhwng y ddau ranbarth nid oedd y cyfraddau yn sylweddol wahanol. O 2017 ymlaen, roedd y gyfradd yng Ngorllewin Cymru yn uwch nag yn Nwyrain Cymru ond, unwaith eto, nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.





**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU (2002-20)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn arolwg 2020, cyflwynwyd dull newydd a gwell o edrych ar gymhellion sylfaenwyr dros ddechrau eu busnes. Cyn hynny, roedd y cwestiwn a ofynnwyd yn rhy gyfyngedig a dim ond un dewis rhwng rheidrwydd a chyfle roedd yn ei roi. Disodlwyd y cwestiynau hyn gan gwestiynau newydd a oedd yn darparu ar gyfer cyfuniad o gymhellion sy'n dangos set fwy realistig o ffactorau ysgogi i ddechrau busnes.

Y pedwar cymhelliant oedd "gwneud gwahaniaeth yn y byd", "creu llawer o gyfoeth neu incwm uchel iawn", "parhau â thraddodiad teuluol" ac "ennill bywoliaeth am fod swyddi yn brin." Gellir ystyried bod y ddau gymhelliant cyntaf yn cael eu hysgogi'n fwy gan gyfle tra bod y trydydd yn fwy cymhleth gan y gellid ei briodoli i gyfle neu reidrwydd. Gellir ystyried bod yr un olaf yn cael ei ysgogi'n fwy gan reidrwydd. Fodd bynnag, y pwynt sylfaenol yw nad yw'r opsiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd mwyach ac y gall entrepreneuriaid nodi mwy nag un cymhelliant a'r graddau y maent yn uniaethu â nhw. Noder nad yw'r cymhellion hyn yn cynnwys ymreolaeth nac annibyniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod rhagbrofion wedi dangos bod cymhelliant cyffredinol i entrepreneuriaid ac nad yw'n gwahaniaethu rhwng mathau o entrepreneuriaid.

Dengys Ffigur 3 ddadansoddiad o'r cymhellion hyn yn ôl pob un o bedair gwlad y DU fel canran o entrepreneuriaid cam cynnar. Un agwedd nodedig yw bod entrepreneuriaid cam cynnar ym mhob un o bedair gwlad y DU yn llawer llai tebygol o nodi eu bod wedi dechrau

busnes er mwyn "parhau â thraddodiad teuluol" na phob un o'r cymhellion eraill. Yn 2020, roedd yn ymddangos bod y pandemig yn ysgogi mwy o entrepreneuriaeth seiliedig ar reidrwydd gyda mwy na thri o bob pum entrepreneur yn nodi eu bod wedi dechrau busnes er mwyn "ennill bywoliaeth am fod swyddi yn brin". Roedd entrepreneuriaid yng Nghymru yn llawer llai tebygol o nodi eu bod wedi'u hysgogi i ddechrau eu busnes gan yr awydd i 'wneud gwahaniaeth yn y byd' (40.4%) o gymharu â 56.3 yn y DU gyfan. Roedd ychydig dros hanner wedi'u hysgogi gan yr angen 'i greu llawer o gyfoeth neu incwm uchel iawn' o gymharu â dau o bob pump yn y DU gyfan.





**Ffigur 3: Y Cymhelliant dros Entrepreneuriaeth ym Mhedair Gwlad y DU (2020)** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Pwy yw'r entrepreneuriaid yng Nghymru?

**Rhyw:** Fel arfer, mae gan ddynion gyfraddau uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar na menywod. Yn 2019 yng Nghymru roedd cyfradd TEA dynion yn cyfateb yn union i gyfradd TEA menywod, sef 7.0 y cant. Yn yr un modd, nid oedd cyfradd TEA dynion yn 2020, er ei bod yn uwch, yn sylweddol wahanol i gyfradd TEA menywod. Yn y DU, Lloegr a'r Alban yn 2020 roedd cyfraddau TEA dynion i gyd yn sylweddol uwch nag ar gyfer menywod (Ffigur 4).


Fel arfer, mae cymhareb gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar dynion i fenywod tua 50 y cant yn y DU ond cynyddodd i 69 y cant yn 2020. Roedd y gymhareb yng Nghymru yn uwch na'r ffigur hwn ar 75 y cant yn 2020, sy'n debyg i'r gyfradd yng Ngogledd Iwerddon, sef 73 y cant. Cymhareb yr Alban oedd yr un isaf ar 57 y cant, a oedd i'w briodoli'n bennaf i'r gyfradd TEA uchel ar gyfer dynion.

Gall cymarebau blynyddol amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac, felly, mae'n well eu hystyried dros y tymor hwy. Mae'r cymarebau cyfartalog hirdymor rhwng 2002 a 2020 yn awgrymu bod dynion ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn entrepreneuriaid cam cynnar na menywod gyda chymhareb o 56 y cant yng Nghymru, 51 y cant yn Lloegr a 55 y cant yn yr Alban. Mae'r gymhareb TEA menywod i ddynion yng Ngogledd Iwerddon yn is, sef dim ond 39 y cant oherwydd y cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd isel ymysg menywod yn hanesyddol.





**Ffigur 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn ôl Rhyw ym Mhedair Gwlad y DU yn 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae cyfradd TEA menywod yng Nghymru wedi amrywio cryn dipyn dros amser, gan gyrraedd ei lefel uchaf erioed yn 2019, sef 7.0 y cant, a oedd gryn dipyn yn uwch na'i chyfartaledd hirdymor rhwng 2002 a 2010, sef 4.0 y cant (Ffigur 5). Yn 2020, roedd y gyfradd wedi gostwng unwaith eto i'r lefel a welwyd rhwng 2016 a 2018. Cyrhaeddodd cyfradd TEA dynion yng Nghymru ei lefel uchaf erioed yn 2011, sef 10.2 y cant, ond mae wedi gostwng unwaith eto i tua 7 y cant ers 2019. Dengys Ffigur 5 fod cyfraddau TEA menywod yng Nghymru yn cyfateb i duedd y DU hyd at 2010 ac, ar ôl cyfnod o ymwahanu, ymddengys eu bod yn dilyn tuedd y DU unwaith eto er ar lefel is.




**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar Menywod yng Nghymru a'r DU, 2002-2020:** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Oedran:** Fel arfer yn y DU, unigolion 25-34 oed sydd a'r cyfraddau uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar. Yn 2020 yn y DU, roedd gan unigolion 45-64 oed gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd sylweddol is na phob band oedran iau ond nid oedd y gwahaniaeth hwn yn sylweddol yng Nghymru. Yn Lloegr, roedd gan unigolion 55-64 oed gyfraddau TEA sylweddol is na phob oedran iau arall. Yn yr Alban, roedd gan unigolion 45 oed a throsodd gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd is nag unigolion 18-24 oed. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd rhwng y bandiau oedran yng Nghymru na Gogledd Iwerddon (Ffigur 6).





**Ffigur 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn ôl Oedran ym Mhedair Gwlad y DU yn 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)

Ers sawl blwyddyn, roedd gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau, er enghraifft, roedd y cyfraddau TEA ar gyfer unigolion 18-24 oed yn ystod cyfnod y dirwasgiad yn arbennig o uchel, gan gyrraedd uchafbwynt o 10 y cant yn 2011. Gostyngodd ar ôl hynny ond roedd wedi cynyddu unwaith eto i 10 y cant yn 2020 (Ffigur 7). Mae cyfradd y DU wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed, sef 9.2 y cant, yn 2020.

O gymharu â'r DU, mae'r gyfradd uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar ymhlith unigolion 18-24 oed yng Nghymru a welwyd yn ystod y dirwasgiad yn awgrymu eu bod yn wynebu hinsawdd economaidd anoddach, gyda'r prinder swyddi'n golygu bod yn rhaid iddynt fynd yn hunangyflogedig, a bod y rheidrwydd hwnnw wedi diflannu wrth i'r economi adfer. Fodd bynnag, ers 2015 mae'r cynnydd yn lefel entrepreneuriaeth ieuenctid wedi bod yn duedd glir yn y DU nad yw wedi cael ei hadlewyrchu yng Nghymru, hynny yw hyd at 2020 pan ymddengys fod y pandemig unwaith eto wedi ysgogi entrepreneuriaeth seiliedig ar reidrwydd ymhlith y grŵp oedran hwn.

Mae lefel entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru gryn dipyn yn uwch yn 2020 nag ydoedd yn 2002: sef 10.1 y cant o gymharu â 2.0 y cant. Mae'n ddigon posibl bod hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gynyddol o weithgareddau entrepreneuriaeth ieuenctid gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn ond mae'n adlewyrchu'r duedd gyffredinol yn y DU lle y cynyddodd y gyfradd TEA o 2.8 y cant i 9.2 y cant ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae addysg mentergarwch yn ffactor pwysig sydd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn dros y degawdau diwethaf ac mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu y gall fod yn effeithio ar weithgareddau entrepreneuraidd gwirioneddol y bobl ifanc hyn.





**Ffigur 7: Y Duedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU, 2002 i 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)


Dadansoddiad a allai fod yn fwy defnyddiol yw asesu'r duedd o ran y gyfradd TEA ar gyfer y grŵp oedran 18 i 29 (lle ymddengys fod toriad naturiol yn nata gweithgarwch GEM y DU) a'i chymharu â'r grŵp oedran 30 i 64. Dengys Ffigurau 8 a 9 fod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc yng Nghymru, er bod cryn dipyn o amrywiadau blynyddol, wedi bron â threblu dros bron i ddau ddegawd o 3.4 y cant i 9.2 y cant. Gwelwyd tuedd debyg yng ngwledydd eraill y DU ac eithrio Gogledd Iwerddon lle mae'r cynnydd wedi bod yn llai sylweddol ac mae mwy o amrywiadau blynyddol wedi'u cofnodi.

Yn wahanol i'r entrepreneuriaid iau, gostyngodd y gyfradd TEA ymhlith unigolion 30-64 oed ym mhob un o bedair gwlad y DU yn 2020. Yn Lloegr a'r DU, gostyngodd y gyfradd yn 2020 tua 4 pwynt canrannol o gymharu â 2019. Roedd y gostyngiad yng nghyfradd Cymru yn llai,

sef dim ond 1 pwynt canrannol. O ganlyniad i'r gostyngiad hwn, nid oedd cyfraddau TEA yn 2020 ym mhob un o bedair gwlad y DU yn sylweddol wahanol i'r rhai yn 2002 ar gyfer y grŵp oedran hwn.





**Ffigur 8: Y Duedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar ym Mhedair Gwlad y DU ar gyfer pobl 18-29 oed, 2002 i 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)




**Ffigur 9: Y Duedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar ym Mhedair Gwlad y DU ar gyfer pobl 30-64 oed, 2002 i 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Addysg:** Fel arfer, mae gan raddedigion yn y DU gyfraddau uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar na phobl heb radd. Yn 2020, roedd y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion yn y DU, sef 9.0 y cant, gryn dipyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer pobl heb radd, sef 6.4 y cant (Ffigur 10). Roedd y ddwy gyfradd yn sylweddol is nag yn 2019.

Y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion yn 2020 oedd 6.4 y cant o gymharu â 6.6 y cant ar gyfer pobl heb radd; nid oedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol ychwaith yn y naill gyfradd na'r llall o gymharu â 2019. Lloegr oedd yr unig un o bedair gwlad y DU lle roedd y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer pobl heb radd yn 2020.




**Ffigur 10: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar ym Mhedair Gwlad y DU yn ôl Statws Gradd, 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)


# Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy’n darparu procsi ar gyfer potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod person sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf; canfyddiad o gyfleoedd da ar gyfer dechrau busnes; hunangred o ran meddu ar y sgiliau perthnasol i sefydlu busnes a pha mor gyffredin yw ofn methu fel ffactor sy'n atal pobl rhag sefydlu busnes.

Mae data agweddol GEM yn cael eu cofnodi yma ar gyfer y gyfran honno o’r boblogaeth nad ydynt eisoes yn entrepreneuriaid, gan y gallai unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid deimlo bod rhaid iddynt ddarparu atebion cadarnhaol yn yr Arolwg Poblogaeth Oedolion (APS).

Yng Nghymru yn 2020, mae 45.1 y cant o unigolion nad ydynt yn entrepreneuriaid yn dweud eu bod yn adnabod entrepreneur, nad yw'n sylweddol wahanol i gyfradd y DU, sef 47 y cant (Ffigur 11). Ac nid yw'n sylweddol wahanol i'r ffigur ar gyfer 2019 ychwaith. Mae 41.1 y cant o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes, sydd unwaith eto yn debyg i gyfartaledd y DU, sef 44.3 y cant.


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y prif wahaniaeth rhwng Cymru a’r DU yw’r gyfran sylweddol is o’r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy’n credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal yn y chwe mis nesaf, 25.0 y cant yng Nghymru o gymharu â 32.0 y cant yn y DU. Er gwaethaf y bwlch hwn, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y cyfraddau ofn methu ymhlith y rhai sy'n credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes.




**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru a'r DU 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)

Dengys Ffigur 12 yr agweddau tuag at entrepreneuriaeth pan y'i cyfyngir i bobl 18-24 oed yn unig. Er bod cyfradd ofn methu yn uwch yng Nghymru nag yn y DU, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhyngddi a chyfradd y DU. Yn wir, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn unrhyw un o'r mesurau agweddol rhwng Cymru a'r DU ar gyfer y grŵp oedran hwn.


Wrth gymharu agweddau pobl ifanc ag agweddau'r holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid (fel y dangosir yn Ffigur 11) mae cyfran sylweddol uwch o bobl ifanc yng Nghymru yn adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf, sef 60.3 y cant o gymharu â 45.1 y cant ar gyfer y boblogaeth ehangach nad ydynt yn entrepreneuriaid.  Roedd hyn hefyd yn wir yn y DU lle roedd 59.3 y cant o bobl ifanc yn cytuno â'r gosodiad hwn o gymharu â 47.0 y cant o'r holl bobl yn y DU nad ydynt yn entrepreneuriaid.




**Ffigur 12: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)


Cyfran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n gweld cyfleoedd da i ddechrau busnes ond sy'n nodi y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes oedd 54.9 y cant yn 2020, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r gyfradd yn 2019, sef 50.6 y cant. Fodd bynnag, roedd cyfradd y DU, sef 53.0 y cant, gryn dipyn yn uwch na'r gyfradd gyfatebol yn 2019, sef 46.0 y cant.

Dengys Ffigur 13 fod cyfraddau ofn methu wedi cynyddu yng Nghymru ers 2017 yn ogystal ag ym mhedair gwlad y DU ac mae'n adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd yn y blynyddoedd yn union ar ôl yr Argyfwng Ariannol Mawr. Mae'n ddigon posibl bod y duedd ar i fyny hon yn adlewyrchu'r lefelau cynyddol o ansicrwydd ynglŷn â Brexit a'r diffyg cynnydd o ran sicrhau Cytundeb Masnach Rydd â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Yn 2020, cyfrannodd y pandemig ymhellach at y cynnydd yn y gyfradd ofn methu. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau ofn methu rhwng pedair gwlad y DU.





**Ffigur 13: Ofn Methu ymhlith y rhai sy'n gweld Cyfleoedd ym Mhedair Gwlad y DU, 2002-20** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn Arolwg 2020, roedd 25.0 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yn cytuno bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf o gymharu â 32.0 y cant yn y DU. Roedd cyfradd 2020 yn y DU gryn dipyn yn is nag yn 2019, er nad oedd hynny'n wir yn achos Cymru. Mae bwlch ystadegol arwyddocaol o ran y canfyddiad o gyfleoedd o hyd rhwng Cymru a'r DU ers yr Argyfwng Ariannol Mawr (Ffigur 14).




**Ffigur 14: Canfyddiad o Gyfleoedd i Ddechrau Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-20** (Ffynhonnell: GEM APS)

Roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf yn cyfateb i 16.7 y cant yn 2020. Dyma'r gyfradd uchaf erioed ac mae gryn dipyn yn uwch na'r gyfradd yn 2019, sef 7.6 y cant (Ffigur 15). Roedd yr amcangyfrif ar gyfer y DU, sef 16.2%, hefyd gryn dipyn yn uwch na'r gyfradd yn 2019, sef 11.0 y cant. Mae'n bosibl bod y cynnydd blaenorol yn y cyfraddau bwriad hyn yn ystod y dirwasgiad yn adlewyrchu rhesymau sy'n ymwneud â rheidrwydd. Mae'n debygol, yn 2020, fod y pandemig wedi ysgogi bwriadau'n ymwneud â rheidrwydd a chyfle o ganlyniad i golli swyddi yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio a chyfleoedd digidol.





**Ffigur 15: Disgwyliadau o ran Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid, 2002-20** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2020, nid oedd cyfran y dynion nad oeddent yn entrepreneuriaid gweithredol yng Nghymru a nododd eu bod yn bwriadu dechrau busnes yn y tair blynedd nesaf, sef 19.3 y cant, yn sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer menywod, sef 14.1 y cant (Ffigur 16). Fodd bynnag, roedd cyfradd y dynion ar gyfer Cymru, ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon, gryn dipyn yn uwch na'r cyfraddau cyfatebol ar gyfer dynion yn 2019. Roedd cyfraddau'r menywod ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU gryn dipyn yn uwch yn 2020 nag yn 2019.

Mae cyfraddau bwriad 2020 ar gyfer Cymru yn cyfateb i gymhareb menywod i ddynion o 73 y cant, sy'n debyg i'r un ar gyfer entrepreneuriaeth cam cynnar yng Nghymru (75%). Mae'r

gymhareb yn cymharu â 68 y cant yn Lloegr, 96 y cant yn yr Alban a 61 y cant yng Ngogledd Iwerddon.




**Ffigur 16: Disgwyliadau o ran Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) ym Mhedair Gwlad y DU yn ôl Rhyw, 2020** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Rhuglder yn y Gymraeg a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn 2020 yng nghyfraddau TEA yr unigolion hynny yng Nghymru a oedd yn rhugl eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig (9.3%); a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (8.3%), a'r unigolion hynny nad oedd ganddynt fawr ddim sgiliau Cymraeg, os o gwbl (5.0%). Nid oedd y cyfraddau'n sylweddol wahanol i rai 2019.

# Sylwadau Cloi

Mae gweithgarwch entrepreneuraidd fwy neu lai'n ddigyfnewid yng Nghymru yn 2020 er gwaethaf y pandemig heb fawr ddim gwahaniaeth yn y gyfradd rhwng 2019 a 2020. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ar gyfer y DU gyfan lle roedd gweithgarwch entrepreneuraidd yn 2020 gryn dipyn yn is nag yn 2019. Yng Nghymru, mae cyfraddau bwriad i ddechrau busnes yn arbennig o iach ac maent wedi mwy na dyblu yn ystod y flwyddyn, sy'n awgrymu bod potensial ar gyfer entrepreneuriaeth a ysgogir gan reidrwydd a chyfle. Dylid nodi bod cyfraddau dynion a menywod wedi cynyddu.

Ynghyd â gweithgarwch entrepreneuraidd, mae agweddau tuag at entrepreneuriaeth yn gymharol iach hefyd. Mae tua dau o bob pum unigolyn nad yw'n entrepreneur (41.1%) yn nodi bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i ddechrau busnes ac mae ychydig o dan hanner (45.1%) yn adnabod entrepreneur sydd wedi dechrau busnes yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cyfrannau hyn yn debyg i'r rhai a gofnodwyd yn 2019 ac maent yn nodwedd bwysig ar ecosystem entrepreneuraidd. Ynghyd â'r cyfraddau bwriad, mae'r mesurau hyn yn dangos bod hyder cynyddol yn y boblogaeth o ran y gallu i ddechrau busnes llwyddiannus a'r amodau i wneud hynny. Gan barhau â'r duedd o 2019, nid yw cyfradd TEA dynion a menywod yn sylweddol wahanol yng Nghymru, er bod angen i ni weld data dros gyfnod hwy o amser cyn i ni allu dathlu cau'r bwlch. Mae lefelau entrepreneuriaeth ieuenctid yn parhau i gynyddu o gymharu â'r lefelau a welwyd cyn yr Argyfwng Ariannol Mawr.

Er gwaethaf y darlun cadarnhaol hwn, mae rhai problemau sylfaenol o hyd. O ran agweddau, mae cyfran y bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn lleol yn y chwe mis nesaf yn llai na'r ffigur ar gyfer y DU. Mae'r gyfradd ar gyfer Cymru wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010 ond mae'n gyson is na'r gyfradd ar gyfer y DU. Efallai fod y canfyddiad bod yna lai o gyfleoedd yn adlewyrchu problemau'n ymwneud â galw lleol gwahanol yng Nghymru neu wahaniaeth yn yr amodau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu busnes llwyddiannus Noder bod y gyfradd ofn methu yn debyg i un y DU yn 2020 gydag ychydig dros hanner (54.9 y cant) yr unigolion hynny yng Nghymru a nododd gyfleoedd i ddechrau busnes yn dweud y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes. Er gwaethaf hyn, ymddengys nad yw wedi effeithio ar fwriadau yn y dyfodol.

Mae cwestiynau newydd am gymhelliant yn arolwg GEM UK yn darparu gwybodaeth ddiddorol am feddylfryd entrepreneuriaid cam cynnar yng Nghymru.  Yn 2020, maent yn cael eu hysgogi llawer mwy i ddechrau busnes er mwyn ennill bywoliaeth am fod swyddi yn brin, sy'n awgrymu effaith uniongyrchol y pandemig. O gymharu â'r DU, mae llai o bobl yng Nghymru yn ceisio gwneud gwahaniaeth yn y byd (dau o bob pump) o gymharu â mwy na hanner yr entrepreneuriaid yn y DU. At hynny, parhau â thraddodiad teuluol oedd y ffactor ysgogi lleiaf pwysig yng Nghymru ac mewn rhannu eraill o'r DU.  Mae hyn yn bwysig am ei fod yn dadgyfuno cymhellion entrepreneuraidd, gan fynd y tu hwnt i deipoleg ddeuol syml cyfle/rheidrwydd.

Ar y cyfan, ymddengys fod pandemig COVID-19 yn 2020 wedi newid cymhellion dros entrepreneuriaeth ond nad yw wedi gostwng lefelau gweithgarwch. Os rhywbeth, mae wedi cynyddu'r tebygolrwydd y gwelir mwy o entrepreneuriaeth yng Nghymru, gyda chyfraddau bwriad yn cynyddu'n sylweddol. Bydd canlyniadau arolwg GEM UK 2021, a ddechreuodd ym mis Hydref 2021, yn darparu gwybodaeth hynod ddiddorol am b'un a fydd bwriadau o'r fath yn troi'n weithredoedd ac a fyddwn yn gweld cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru yn sgil hynny.

# Ymwadiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM UK; yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am ddadansoddi a dehongli'r data.

**I gael rhagor o wybodaeth am brosiect GEM UK, cysylltwch â:**

Prof Mark Hart
Economics, Finance and Entrepreneurship Group
Aston Business School, Aston University
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School